Cuddfannau tylwyth teg

Trosolwg

Mae cuddfannau tylwyth teg yn weithgaredd heb adnoddau, sy'n hybu'r dychymyg ac yn annog plant i archwilio byd natur yn fanwl. Mae'r plant yn defnyddio deunyddiau naturiol i greu mannau bach iawn ar gyfer adrodd straeon a chwarae.



Gweithgareddau

Rhannwch stori fer i ysbrydoli'r plant, e.e. Brig-ddyn, yna gwahoddwch y plant i gasglu brigau, dail, rhisgl, cerrig a glaswellt o'r ddaear. Mae'r plant yn adeiladu cuddfannau bach i dylwyth teg, ac yn rhannu syniadau wrth iddynt chwarae.

I ddathlu, ewch am dro bach o gwmpas y man awyr agored i ymweld â phob cuddfan tylwyth teg, a gwrandewch ar y straeon sy'n sail iddynt. Caiff y deunyddiau eu dychwelyd i'r ddaear wedyn.

Prif bwyntiau

- Nid oes angen adnoddau ac mae'n rhad
- Yn hybu'r dychymyg ac yn annog adrodd straeon
- Yn defnyddio deunyddiau naturiol sydd wedi'u darganfod yn barod
- Yn meithrin gofal a pharch at yr amgylchedd

Llyfrau i gychwyn y sesiwn

- **The Leaf Thief**: Yn annog y plant i sylwi ar fyd natur, y tymhorau a chreaduriaid bach.
- **Fairy Houses**: Yn ysbrydoli cartrefi ysgafn i dylwyth teg, sy'n parchu byd natur.
- **Brig-ddyn**: Yn hybu adrodd stori gan ddefnyddio brigau a deunyddiau naturiol.
- **Y Gryffalo** : Yn tanio'r dychymyg ynghylch pwy allai fod yn byw mewn coetiroedd.
- **Not a Stick**: Yn berffaith ar gyfer chwarae dychmygus gan ddefnyddio eitemau naturiol syml.